CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (YMESTYN Y CYFNOD LLWYTHO A PHARCIO BATHODYN GLAS) (ARBROFOL) GORCHYMYN 2026

HYSBYSIAD CYHOEDDUS

HYSBYSIR drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ("y Cyngor"), wrth arfer ei bwerau o dan Adran 9 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a phob pŵer galluogi arall, wedi gwneud y Gorchymyn Traffig Arbrofol a enwir uchod.

Effaith y Gorchymyn, sy'n dod i rym ar 15 Ebrill 2026, yw ymestyn yr oriau a ganiateir ar gyfer llwytho a dadlwytho i rhwng 4yp ac 11yb ar ffyrdd yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, trosi un safle tacsi yn fan parcio bathodyn glas ac ymestyn y man parcio bathodyn glas yn Eglwys Fedyddiedig Hope ar Heol Derwen.

Diben y cynllun arbrofol yw asesu effaith y newidiadau dros gyfnod o hyd at 18 mis cyn penderfynu a ddylid gwneud y newidiadau'n barhaol.

Mae copi o'r dogfennau a adneuwyd, gan gynnwys y Gorchymyn, cynlluniau sy'n nodi'r ardaloedd penodol yr effeithir arnynt a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, ar gael yn rhad ac am ddim:

- drwy gysylltu â traffictransportation@bridgend.gov.uk neu
- dros y ffôn drwy'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Ffôn: 01656 643643 (dyfynnwch y cyfeirnod TRA001369 wrth wneud apwyntiad os gwelwch yn dda)
- neu ar-lein yn: https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/

Gall unrhyw berson sy'n dymuno gwrthwynebu i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn barhau mewn grym yn barhaol wneud hynny o fewn chwe mis i'r Gorchymyn ddod i rym, h.y. erbyn 14 Hydref 2026 neu, os amrywir y gorchymyn gan orchymyn dilynol neu os caiff ei addasu yn unol ag adran 10(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, o'r dyddiad y daw'r gorchymyn amrywio neu'r addasiad hwnnw i rym. Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau o'r fath yn ysgrifenedig at y sawl sydd wedi llofnodi isod i'r cyfeiriad isod, neu drwy e-bost i'r cyfeiriad uchod.

Os ydych yn cael unrhyw anhawster i ymateb yn ysgrifenedig, neu os oes arnoch angen yr hysbysiad hwn mewn fformat arall, er enghraifft print bras, sain, braille neu ffacs, gwnewch eich cais drwy e-bost neu dros y ffôn gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a roddir uchod.

Noder y gall y Cyngor ystyried pob sylw a dderbynnir yn gyhoeddus ac y gall sylwedd unrhyw sylw (ynghyd ag enw a chyfeiriad y person sy'n ei wneud) gael ei wneud ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd.

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

K Watson, Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

8 Ebrill 2026